# TASG: DYFYNIADAU

SUT WYT TI'N TEIMLO AR ÔL GWYLIO STORI CAI A CELYN? GYDA PHWY WYT TI'N CYDYMDEIMLO? GYDA CAI AM EI FOD E'N METHU'R FLIGHT NEU GYDA CELYN AM EI BOD HI'N GORFOD GWNEUD Y DEFODAU TRO AR ÔL TRO RHAG OFN BYDD RHYWBETH OFNADWY YN DIGWYDD? FEL RWYT TI WEDI GWELD, MAE OCD YN GALLU CAEL EFFAITH OFNADWY NID DIM OND AR Y PERSON SY'N DIODDEF O'R CYFLWR OND AR Y TEULU I GYD!

OND BETH YW OCD? BETH AM DREULIO YCHYDIG O AMSER YN DARGANFOD YSTYR Y GEIRIAU CANLYNOL:

- **OBSESIWN**
- **GORFODAETH**
- **YMDDYGIAD**
- **PRYDER**
- **GWYBYDDIAETH**


MEWN GRWPIAU BACH, DARLLENWCH Y DYFYNIADAU YMA O GYFNODAU GWAHANOL YN Y RHAGLEN A THRAFODWCH SUT MAE CELYN YN TEIMLO YN YSTOD YR ADEGAU HYN. PA EMOSIYNAU MAE HI'N BROFI? O DDEALL EI CHYFLWR HI'N WELL, PA GYNGOR FYDDECH CHI'N RHOI I CELYN NEU I UNRHYW UN ARALL SY'N DIODDEF O'R CYFLWR HWN?

**"OS BYDD DAD YN GYRRU'N RHY GYFLYM, BYDD DAMWAIN YN DIGWYDD, ACHOS BO FI DDIM WEDI NEUD PETHAU'N IAWN!"**

**"MAE'R MEDDYLIAU YMA JYST YN LLIFO MEWN I 'MHEN I O HYD AC O HYD."**

**"... OND DYW'R MEDDYLIAU DDIM YN STOPIO, A DWI ISHE IDDO FE STOPIO, OND BYDD E BYTH YN STOPIO!"**

TYBED PA GYNGOR ELLI DI GYNNIG I RYWUN FEL CELYN? YN AML, MAE'N ANODD RHESYMU GYDA RHYWUN SY'N DIODDEF O OCD AC MAE ANGEN LLAWER O AMYNEDD A DEALLTWRIAETH I DDELIO GYDA'R CYFLWR MEWN MODD SENSITIF.



DWI'N GWYBOD BOD E I GYD YN SWNIO'N *WEIRD* AC YN TEIMLO'N RILI *SCARY*, OND GYDA'N GILYDD GALLWN NI DDOD I DDEALL Y CYFLWR YMA'N WELL A DECHRAU ANWYBYDDU'R MEDDYLIAU DRWG YN DY BEN.

